COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 31 IONAWR 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | RM Granville |
| S J Griffiths | M L Hughes | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| G Walter | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Jones

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Victoria Adams | Rheolwr Cyllid – Rheoli Cyllidebau: Cymunedau, Addysg a Chymorth i Deuluoedd \| Prif Weithredwr (Cyllid) |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Chris Morris | Rheolwr Cyllid - Rheoli Cyllidebau: Gwasanaethau cymdeithasol a Lles / Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

46. CYDYMDEIMLAD

Anfonodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad ef a'r Pwyllgor at Brif Weinidog Cymru a'i deulu ar farwolaeth disymwth gwraig y Prif Weinidog. Ychwanegodd fod eu meddyliau gyda hwy ar yr amser trist hwn.

47. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Paul Davies fuddiant rhagfarnus yn eitem 6, Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig 2023-24 i 2026-27 a'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb Ddrafft.

48. MONITRO CYLLIDEB 2022-23 – RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 3

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid Perfformiad a Newid adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf I'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol am sefyllfa ariannol refeniw y Cyngor fel ar 31 Rhagfyr 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Cyllid Perfformiad a Newid a bu'r aelodau yn trafod y canlynol:

- Darparodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid fanylion pellach mewn perthynas â'r golofn gor/tanwariant a ragwelid yn nhabl 1 yr adroddiad.

- Nad oedd cydberthynas amlwg rhwng cynnydd yn y Dreth Gyngor a gostyngiad yn y cyfraddau casglu. Bu'r aelodau hefyd yn trafod cymorth gyda'r Dreth Gyngor a chymorth arall i bobl sy'n cael trafferth i dalu.
- Balans y Gronfa Galedi yn cyfrannu tuag at barcio ceir am ddim yng nghanol trefi, faint oedd hyn yn ei gostio i'r awdurdod bob mis ac a fu hyn yn llwyddiannus o ran dod â phobl yn ôl i ganol y trefi.
- Na ragwelir unrhyw gymorth ariannol allanol pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19, er y gallai fod cynlluniau yn ymwneud â chostau byw.
- Gohiriwyd y cynnig i leihau'r gyllideb yn ymwneud â gosod adain o Ravens Court oherwydd ansicrwydd y polisi gweithio hybrid newydd a'r galw am ofod swyddfa a phryd y byddai'r arbedion yn cael eu cyflawni.
- Cynigion i leihau'r gyllideb a gafodd eu gohirio neu nad oedd modd eu cyflawni a pha gynigion eraill a nodwyd.
- Manylion yr hyn oedd ynghlwm yn y cyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau, gyda golwg ar baragraff 4.2.6 yr adroddiad, bod 'adolygiad o'r cyllidebau o fewn y Gyfadran Addysg a Chymorth i Deuluoedd' wedi'i gynnal yn ystod chwarter 3 gydag arbedion newydd wedi cael eu nodi o gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau'. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd i ddarparu dadansoddiad ar gyfer y pwyllgor.
- Nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd y byddai ganddynt falans diffygiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, effaith gostyngiad o 2% yn y cyllidebau ar ysgolion, a dulliau o liniaru effaith y toriadau. Bu'r aelodau hefyd yn trafod naratif y gyllideb, p'un a oedd hyn yn doriad neu beidio gan y byddai'r ysgolion yn derbyn mwy o arian na'r flwyddyn flaenorol ac y byddai'r holl godiadau cyflog i staff addysgu yn cael eu cynnwys a'r materion yn deillio o'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN).
- Tra'n cydnabod bod Rheoliadau PSVAR yn atal lleoedd masnachol ar gludiant ysgol, awgrymodd yr Aelodau y dylai'r rhagolygon am leoedd masnachol fod yn flaenoriaeth mewn trafodaethau gyda darparwyr newydd oherwydd y nifer cynyddol o rieni rhwystredig oedd yn barod i dalu am gludiant.
- Canlyniad adolygiad LIC o Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac a oedd yn debygol o effeithio ar ysgolion o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Y pwysau o fewn Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y gogwydd o £15.35 miliwn, digonolrwydd y gyllideb arfaethedig ac a oedd y maes wedi cael ei danariannu cyn hyn, rheoli risg, cynnydd eithriadol yn y galw, llai o grantiau gan Lywodraeth Cymru a sylfaen risg uwch.
- Problemau gyda'r gweithlu, y galw a chymhlethdod yr angen a'r cyflenwad. Yn benodol, bu'r Aelodau'n trafod yr angen am weithwyr asiantaeth, y newid yn y gweithlu gwaith cymdeithasol, cynnydd o 127.9% mewn asesiadau yn y flwyddyn hyd yma o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, y nifer uchaf erioed o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn hanes Pen-y-bont ar Ogwr a chynnydd yn nifer y plant oedd wedi bod mewn gofal.
- Anableddau dysgu a'r adolygiad parhaus, heriau pobl hŷn mewn Gwasanaethau Dydd a bod hyn yn gyffredin i bob awdurdod lleol.
- Pryderon ynglŷn â'r risg a chais i gael golwg ar y gofrestr risg yn ymwneud â'r shifft sylweddol o £15.352 miliwn oherwydd bod Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld gorwariant o £9.421 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â sefyllfa alldro 2021-22 o danwariant o £5.931.
- Pryderon nad oedd y gyllideb yn ddigonol i ymdrin â chleifion a ryddhawyd o'r ysbyty heb becynnau gofal yn eu lle a dim digon o staff i gyflawni'r pecynnau.
- Gan gyfeirio at y tabl yn dangos yr amrywiadau a ragwelid yn y tri maes gwasanaeth o fewn Gofal Cymdeithasol Plant, gofynnodd yr Aelodau am gael gweld y gyllideb a ddyrannwyd i bob un.

- Roedd angen i'r holl ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol gael eu hariannu'n llawn.
- Y gorwariant ar gyllideb y Gwasanaethau Fflyd, pan fyddai adolygiad o'r gwasanaeth wedi cael ei gwblhau, hyfforddiant ar gyfer cerbydau trydan, a hydrogen o bosibl yn y dyfodol, a'r effaith ar gyllideb tacsis wrth ddefnyddio cyfleusterau eraill.
- Materion yn ymwneud â'r nifer sylweddol o swyddi gwag ar draws Cyfarwyddiaeth y Cymunedau, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf ac anawsterau recriwtio syrfewyr a pheirianwyr priffyrdd yn arwain at danwariant.
- Ffyrdd eraill o gyflwyno'r gwasanaeth, blaenoriaethau iechyd a diogelwch a'r amwynder gweledol a gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf i gefnogi staff.
- Y gostyngiad sylweddol yn nifer y gyrwyr tacsis yn dilyn Covid, pryderon diogelu yn y Fwrdeistref a'r mater hwn yn cael ei waethygu gan yrwyr tacsis yn cael eu gorfodi i ddefnyddio cyfleuster penodol a'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal yn y maes hwn.
- Arbedion cychwynnol o Oleuadau Stryd yn cael eu defnyddio i wrthbwyso gorwariant mewn meysydd eraill, gan arwain at orwariant yn y pen draw ar Oleuadau Stryd, oherwydd gwaith cynnal a chadw hanfodol o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ffyrdd.
- Costau argraffu uchel o fewn y gyllideb TGCh o ganlyniad i gael eu cloi i mewn i ffioedd rhent sefydlog am y peiriannau argraffu.
- Rhwystredigaethau gyda chyllid grant Llywodraeth Cymru a heb wybod a fyddai'n parhau yn y blynyddoedd i ddod, sgyrsiau ledled Cymru ynghylch ychwanegu cyllid at y gyllideb refeniw ar gyfer digartrefedd fel y gellid ei ystyried fel rhan o'r cylch ehangach.
- Balans cronfa'r Cyngor hyd at 31 Rhagfyr 2022 (£10.1 miliwn) fel yr adroddwyd pan gaewyd y cyfrifon. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw gynlluniau i dynnu i lawr o'r gronfa honno yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Tra'n cydnabod bod y Rheoliadau PSVAR yn atal lleoedd masnachol ar gludiant ysgol, y dylai'r rhagolygon am leoedd masnachol gael blaenoriaeth mewn trafodaethau gyda darparwyr newydd oherwydd y nifer cynyddol o rieni rhwystredig sy'n barod i dalu am gludiant.

2. Roedd angen ariannu'r holl ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol yn llawn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

3. Manylion yr hyn oedd yn gysylltiedig â'r cyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau, gyda golwg ar baragraff 4.2.6 o'r adroddiad, sef bod 'adolygiad o'r cyllidebau o fewn y Gyfadran Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi'i gynnal yn ystod chwarter 3 gydag arbedion newydd wedi cael eu nodi o gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau'.

4. Cael golwg ar y gofrestr risg yn ymwneud â'r symudiad sylweddol o £15.352 miliwn oherwydd bod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld gorwariant o £9.421 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â sefyllfa alldro 2021-22 o danwariant o £5.931.

5. Gan gyfeirio at y tabl yn dangos yr amrywiannau a ragwelir yn y tri maes gwasanaeth o fewn Gofal Cymdeithasol Plant, y gyllideb a ddyrannwyd i bob un.

49. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-28

Cyflwynodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus y Cynllun Corfforaethol drafft 2023-28, oedd yn nodi’r cyd-destun polisi, ffyrdd o weithio ac amcanion llesiant ar gyfer y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a thrafododd yr Aelodau’r canlynol:

- Manteision dangos cost flynyddol rhai o'r gwasanaethau a'r posibilrwydd o ddadgyfuno pellach yn ôl y gost fesul cartref neu gost fesul defnyddiwr. Gofynnodd y Pwyllgor am ffeithluniau ffug yn dangos dadansoddiad o wariant y Cyngor fesul diwrnod, fesul cartref ac fesul person i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y rhai fyddai'n fwyaf defnyddiol i breswylwyr.
- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i hybu a chyfleu'r Cynllun Corfforaethol i'r cyhoedd gan roi ystyriaeth i'r rhai sy'n cael cyfryngau digidol yn heriol, trigolion hŷn a'r rhai ag anawsterau golwg.
- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned i hybu a dosbarthu'r Cynllun Corfforaethol mewn canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd lleol.
- Ystyried anfon ffeithluniau o’r Dreth Gyngor a gwariant y Cyngor gyda'r llythyrau yn gofyn am y Dreth Gyngor.
- Ystyried ceisio cyngor allanol, arbenigol neu fuddsoddi mewn hyfforddiant allanol i wella'r defnydd o ffeithluniau a'r posibilrwydd o ychwanegu colofn i ddangos beth aeth yn dda.
- Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddioldeb Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) heb amcanion na chanlyniadau allweddol (ACA) a gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynllun Gweithredu Blynyddol fynd i'r afael â'r materion hyn.
- O ran y pum ffordd o weithio, darparu cyd-destun o amgylch “y llaw” i nodi atal neu leihau gwasanaethau.
- Yr angen i atgyfnerthu'r sgwrs sydd i'w chael gyda thrigolion ynglŷn â'r cyfrifoldeb am gadw'n iach a diogel.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

6. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i hybu a chyfleu’r Cynllun Corfforaethol i'r cyhoedd gan roi ystyriaeth i'r rhai sy'n cael cyfryngau digidol yn heriol, trigolion hŷn a'r rhai ag anawsterau golwg.

7. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned i hyrwyddo a dosbarthu'r Cynllun Corfforaethol mewn canolfannau cymunedol lleol a llyfrgelloedd.

8. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anfon ffeithluniau o’r Dreth Gyngor a gwariant y Cyngor gyda'r llythyrau yn gofyn am y Dreth Gyngor.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor gais am y canlynol:

9. ffeithluniau ffug yn dangos dadansoddiad o wariant y Cyngor fesul diwrnod, fesul cartref ac fesul person i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y rhai fyddai'n fwyaf defnyddiol i breswylwyr.

10. Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddioldeb Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) heb amcanion a chanlyniadau allweddol (ACA) a gofynnodd y Pwyllgor am y Cynllun Gweithredu Blynyddol yr oedd wedi clywed fyddai'n cynnwys y wybodaeth honno ac os nad oedd ar gael, syniad pryd y câi ei gyhoeddi.

## 50. STRATEGAETH GYFALAF 2023-24 I 2032-33

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid y Strategaeth Gyfalaf ddrafft 2023-24 i 2032-33 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, oedd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus y bu i'r Cyngor fesur ei hun yn eu herbyn yn ystod y flwyddyn ariannol (Atodiad A) ac i'r Pwyllgor roi unrhyw sylwadau i'w hystyried wrth gwblhau'r Strategaeth Gyfalaf i'w chymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Mawrth 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Briffio Aelodau i'w cynorthwyo i ddeall y Strategaeth Gyfalaf
- Bod gwasanaethau fflyd yn ystyried prydlesu cerbydau a pheiriannau yn hytrach na'u prynu'n gyfan gwbl i weld a allai hyn sicrhau arbedion ar gynnal a chadw ac adnewyddu a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei darparu mewn ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor.
- Pan oedd prosiectau'n cael eu hasesu, y câi risg ei hystyried o ran cyllid ac o ran y gallu i gyflawni'r prosiect. Roedd yswiriant ar gael ar gyfer agweddau iechyd a diogelwch ond nid oedd hynny'n gost cyfalaf. Byddai unrhyw waith cyfalaf ychwanegol fyddai ei angen i ddileu risg yn mynd drwy'r Rhaglen Gyfalaf.
- Newidiadau i Strategaeth ddrafft Rheoli'r Trysorlys o ganlyniad i sylwadau gan Aelodau mewn perthynas â'r sefyllfa gyda Chyngor Thurrock.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

11. Bod y gwasanaethau fflyd yn ystyried prydlesu cerbydau a pheiriannau yn hytrach na'u prynu'n llwyr i benderfynu a allai hyn arbed arian ar waith cynnal a chadw ac adnewyddu a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei darparu mewn ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am gael:

12. Briffio Aelodau er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y Strategaeth Gyfalaf.

## 51. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023-24 I 2026-27 A PHROSES YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB DDRAFFT

Cyflwynodd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Craffu adroddiad terfynol Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP), ynghlwm yn Atodiad A, i'r Pwyllgor a'r

ymatebion gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc mewn perthynas â chynigion cyllideb drafft y Cabinet, ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ystyried canfyddiadau'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso Cyllideb, ynghlwm yn Atodiad A, a phenderfynu a ddylai'r Argymhellion gael eu hanfon ymlaen i'r Cabinet ynghyd â'r ymatebion cyfunol gan bob un o'r pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Atodiad B fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd -Craffu, a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Y defnydd o arian wrth gefn i "lenwi'r bwlch ariannol" oherwydd y cyd-destun ariannol difrifol am un flwyddyn gan ragweld y byddai chwyddiant yn lleihau tua diwedd y flwyddyn a bod y darlun economaidd yn gwella. Bu'r Aelodau'n trafod yr angen i fod yn ariannol gredadwy yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru a'r angen i gadw balans o 5% net o falansau ysgolion i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl. Dim ond unwaith y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn ond roedd disgwyl toriadau pellach i wariant cyhoeddus. Dylid ystyried canfyddiad y cyhoedd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chyfathrebu â'r cyhoedd.
- Defnyddio cronfa arian i osgoi problemau yn ystod COVID.
- Llithriad yn y Rhaglen Gyfalaf ac a oedd cyfle i ohirio rhai o'r prosiectau cyfalaf a rhentu peiriannau neu gerbydau i ryddhau arian cyfalaf wrth gefn i gynyddu'r gyllideb refeniw a helpu i dalu costau eleni.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol eraill i edrych ar arfer gorau a phwysau. Uwchgynhadledd CLlLC i edrych ar gynigion ar gyfer awdurdodau cyfagos.
- Lle i ddarparu cynigion cyllideb gwahanol o ganlyniad i fwy o ymgysylltu â'r broses a bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau dewisol llawn y gellid eu hystyried ar gyfer arbedion. Byddai'n ddefnyddiol gwybod beth oedd yn statudol a beth oedd yn ddewisol a'r swm a dalwyd am y gwasanaethau hynny er mwyn medru gwneud cyfraniad mwy gwerthfawr yn y dyfodol.
- Archwaeth am risg o ran rhagfynegiadau ynghylch chwyddiant a phrisiau ynni a diffyg gwytnwch yn y cronfeydd wrth gefn neu'r gyllideb sylfaenol.
- Sgyrsiau parhaus i liniaru effaith rhai o'r cynigion yn enwedig mewn perthynas â'r RNLI, y Gronfa Adfywio a gorfodi.
- Y penawdau o'r ymgynghoriad ar y gyllideb oedd yn dod i ben ac ailymweld â rhai o'r rhagdybiaethau i weld a oedd rhywfaint o le i weithredu ar y sylwadau a dderbyniwyd.
- Cyflwyno cyllideb wahanol a heb gael mynediad at y wybodaeth oedd yn ofynnol i wneud cyfraniad o werth i'r drafodaeth.
- Dim ond 7% o gynigion i leihau'r gyllideb oedd yn seiliedig ar newidiadau polisi.
- Y posibilrwydd y gallai BREP a COSC fod yn rhan o'r broses hidlo i edrych ar ba bolisïau yr oedd dichon eu hystyried.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

13. Bod argymhellion y pedwar Pwyllgor Craffu yn cael eu cyflwyno, heb eu diwygio, i'r Cabinet fel argymhellion y COSC.

14. Bod argymhelliad ychwanegol gan COSC y dylid cyfathrebu â thrigolion i wella dealltwriaeth o ddiben y cronfeydd wrth gefn, a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a gedwir gan y Cyngor.

52. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 15:20